# <u>Cydsyniad Ymgeisydd Arholiad (13 oed neu'n hŷn) i brosesu data personol:</u> <u>Trefniadau Mynediad Ar-lein</u>

| | | |
|---|---|---|
| **I:** | **Enw'r ganolfan arholiadau:** | [Insert name of school] (y "**Ganolfan Arholiadau**") |
| | **Manylion y ganolfan arholiadau:** | [Identify the school as a legal entity. E.g. for maintained schools the name of the Academy Trust or Local Education Authority, or for private schools the name of the company, the country it is incorporated in and its registration number.] |
| | **Cyfeiriad:** | [Insert address of school] |
| | **Y Swyddog Arholiadau neu'r Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig (AAA):** | Enw: [Insert name]<br>Teitl y swydd: [Insert job title]<br>Cyfeiriad e-bost: [Insert contact email address] |
| | **Swyddog Diogelu Data:** | [Name or Not applicable]<br>[Contact details for DPO, if applicable. LEAs will have a DPO. Some other exam centres may have one.] |

| | | |
|---|---|---|
| **ODDI WRTH:** | **Enw Llawn:** | [Insert name of student]<br>(y "**dwi**", "**fy**", "**fi**") |
| | **Dyddiad geni:** | [dd/MM/yyyy] |
| | **Enw llawn y Fam/ Tad/ Gwarcheidwad sy'n llofnodi (os yn berthnasol):** | [Insert name of Mother/Father/Guardian who countersigns for the student] |
| | **Cyfeiriad cartref:** | [Insert home address of student and counter-signatory] |

1. Rwyf wedi derbyn a darllen yr Hysbysiad Preifatrwydd o'r enw "Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer Ymgeisydd Arholiadau 13 oed neu hŷn: Trefniadau Mynediad Ar-lein".
2. Rwy'n cytuno i'm canolfan arholiadau wneud cais am drefniadau mynediad ar fy rhan a defnyddio a rhannu gwybodaeth amdanaf, yn unol â'r hyn a ddisgrifir yn yr Hysbysiad Preifatrwydd, at ddibenion y cais.
3. Gwn fod gennyf yr hawl i dynnu fy nghydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg, a byddaf yn dweud wrth y Swyddog Arholiadau neu'r Cydlynydd AAA os wyf am dynnu fy nghaniatâd yn ôl.
4. Gwn y gall yr hysbysiad preifatrwydd newid a rhaid i'r ganolfan arholi roi gwybod i mi am unrhyw Hysbysiad. Fy nghyfrifoldeb i yw rhoi gwybod i'r Swyddog Arholiadau neu'r Cydlynydd AAA, ar ôl i mi gael gwybod am yr Hysbysiad newydd, os wyf am newid fy meddwl am fy nghydsyniad.
5. Os na fyddaf yn rhoi fy nghydsyniad neu os byddaf yn ei dynnu'n ôl, gwn ei bod yn bosibl na fydd y ganolfan arholiadau'n gallu prosesu trefniadau mynediad ar fy nghyfer.

## Fy Llofnod:

**Cydlofnod:**
(Mam/ Tad/ Gwarcheidwad)

Dyddiad:

# Hysbysiad Preifatrwydd i Ymgeisydd Arholiad 13 oed neu'n hŷn: Trefniadau Mynediad Ar-lein

Mae'r hysbysiad hwn yn berthnasol i'r **Arholiadau** canlynol:

Cymwysterau Cyffredinol Cymhwysol AQA, Cymwysterau Technegol Lefel 1, Lefel 2 a Lefel 3 AQA, Cymwysterau Cenedlaethol Caergrawnt, Cymwysterau Technegol Caergrawnt, Tystysgrifau Lefel 3 Mathemateg Annibynnol (FSMQ), TAG, TGAU, OCR, Cymwysterau Cyffredinol Lefel 1 a Lefel 2 CBAC, Cymwysterau Galwedigaethol Lefel 1 a Lefel 2 CBAC a Chymwysterau Cymhwysol Lefel 3 CBAC gan y **cyrff dyfarnu** canlynol – AQA, CCEA, OCR, Pearson a CBAC, sy'n cael eu cynrychioli gan y **CGC** (Cyd-gyngor Cymwysterau CIC).

Darperir yr hysbysiad hwn ar eich cyfer gan eich **Canolfan Arholiadau**, sef yr unigolyn neu'r sefydliad (e.e. eich ysgol) sy'n eich cofrestru ar gyfer eich arholiadau. Mae'r hysbysiad yn dweud wrthych sut mae eich gwybodaeth bersonol yn cael ei defnyddio ar gyfer prosesu ceisiadau ar-lein ar gyfer trefniadau mynediad.

Mae **trefniadau** mynediad yn ystyried un o'r namau canlynol pan fyddwch yn sefyll arholiad; eich anhawster dysgu, cyflwr meddygol, anabledd corfforol neu nam ar y synhwyrau.

### Eich rheolydd

Mae'r ganolfan arholiadau yn rheolydd ar eich gwybodaeth bersonol. Bydd y cyrff dyfarnu, gan gynnwys y Cyd-gyngor Cymwysterau, hefyd yn rheolyddion pan fyddant yn derbyn neu'n defnyddio eich gwybodaeth bersonol.

Mae **rheolydd** yn rhywun sy'n defnyddio eich gwybodaeth bersonol at ei ddibenion ei hun. Mae manylion cyswllt y ganolfan arholiadau ar y dudalen nesaf. Mae manylion cyswllt y cyrff dyfarnu i'w gweld yn: https://www.jcq.org.uk/contact-us/contact-details-for-jcq-and-members

### Gwybodaeth Bersonol

I wneud cais ar-lein am drefniadau mynediad, rhaid i'r ganolfan arholiadau ddefnyddio eich enw, dyddiad geni, rhif ymgeisydd, grŵp blwyddyn a'r flwyddyn/blynyddoedd academaidd pan fyddwch yn sefyll yr arholiadau.
Rhaid iddyn nhw hefyd gadarnhau beth yw eich anawsterau. Os gwrthodir y cais ar-lein am drefniadau mynediad, bydd angen i'ch canolfan arholiadau ddarparu manylion ynglŷn â'ch anawsterau, a natur eich nam, i'r cyrff dyfarnu eu hystyried.

### Sut y defnyddir eich gwybodaeth bersonol

Os ydych yn llofnodi'r ffurflen ar y dudalen nesaf er mwyn cydsynio, bydd y ganolfan arholiadau'n gwneud cais ar-lein am eich trefniant/trefniadau mynediad. Gweithredir y system ar-lein gan y CGC ar ran AQA, CCEA, OCR, Pearson a CBAC. Mae'r system ar-lein wedi'i rhaglennu i wneud penderfyniad ynglŷn â'ch cais. Os yw'r cais yn cael ei wrthod ac os yw eich canolfan arholiadau'n cyfeirio'r penderfyniad, bydd yn rhaid iddi ddarparu manylion ynglŷn â natur eich nam a'ch anawsterau penodol ar gyfer y corff/cyrff dyfarnu perthnasol. Gellir defnyddio eich gwybodaeth at ddibenion eraill, heb eich cydsyniad mewn rhai achosion, megis er mwyn cydymffurfio â'r gyfraith neu

i fynd i'r afael â throsedd. Mae'r cyrff dyfarnu'n defnyddio eich gwybodaeth bersonol yn y DU, lle mae cyfreithiau'n diogelu'r wybodaeth. Dim ond os ydych chi neu'ch canolfan arholiadau y tu allan i'r UE, lle mae'n bosibl na fydd deddfau o'r fath yn berthnasol, y bydd eich gwybodaeth bersonol yn gadael yr UE. Gallwch ddod o hyd i ragor o fanylion, gan gynnwys y sail gyfreithiol i ddefnyddio'ch gwybodaeth bersonol gan eich canolfan arholiadau a'r cyrff dyfarnu yn: https://www.jcq.org.uk/exams-office/information-for-candidates-documents/information-for-candidates---privacy-notice

**Eich dewisiadau**

Nid oes rhaid i chi roi eich cydsyniad drwy lofnodi ar y dudalen nesaf. Os ydych yn gwrthod rhoi cydsyniad, efallai na fydd y ganolfan arholiadau yn gallu prosesu cais ar-lein ar eich cyfer.

**Eich Hawliau**

Os ydych yn llofnodi'r ffurflen ar y dudalen nesaf i roi eich cydsyniad, mae gennych yr hawl i dynnu eich cydsyniad yn ôl ar unrhyw adeg. Mae gennych hawl hefyd i ddarganfod sut roedd y system ar-lein yn gwneud y penderfyniad ynglŷn â'ch cais, ac i gael y Swyddog Corff Dyfarnu i adolygu'r penderfyniad. I arfer hawliau, os ydych yn byw yn y DU neu'r UE, dywedwch wrth y Swyddog Arholiadau neu'r Cydlynydd AAA gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar y dudalen nesaf, a (lle bynnag yr ydych yn byw, os yw'r cais wedi'i wneud eisoes) dywedwch wrth y cyrff dyfarnu gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a nodir uchod. Gallwch ddod o hyd i ragor o fanylion am yr hawliau hyn a'ch hawliau eraill yn:
https://www.jcq.org.uk/exams-office/information-for-candidates-documents/information-for-candidates---privacy-notice

# **<u>Cadarnhad o Ddiogelu Data gan y Swyddog Arholiadau neu'r Cydlynydd AAA</u>**

Rydych yn gwneud cais ar-lein am drefniadau mynediad i ymgeisydd penodol yr ydych wedi'i gofrestru ar gyfer un neu fwy o'r arholiadau a restrir ar **dudalen** *2* cyhoeddiad Cyd-gyngor Cymwysterau Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol.

**<u>Cyn bod y cais yn gallu cael ei brosesu ar-lein</u>**, yn rhinwedd eich swydd fel Swyddog Arholiadau neu Gydlynydd AAA eich Canolfan Arholiadau, mae'n **<u>rhaid</u>** i chi gadarnhau'r canlynol:

| | |
|---|---|
| ☐ | Mae'r Ymgeisydd, y mae'r cais hwn yn gysylltiedig ag ef, wedi llofnodi a dyddio Ffurflen Cydsyniad yr Ymgeisydd ar gyfer trefniadau mynediad ar-lein **<u>cyn</u>** prosesu cais ar-lein, ac mae papur gwreiddiol Ffurflen Cydsyniad yr Ymgeisydd ar gyfer trefniadau mynediad ar-lein yn fy meddiant (a byddaf yn ei chadw am [ddim llai na 2 flynedd]).<br><br>Os yw'n berthnasol, mae rhiant neu warcheidwad yr ymgeisydd wedi cydlofnodi Ffurflen Cydsyniad yr Ymgeisydd ar gyfer trefniadau mynediad ar-lein. |

Mae'r term **Hysbysiad Preifatrwydd yr Ymgeisydd ar gyfer trefniadau mynediad ar-lein** yn golygu'r ddogfen â'r teitl "Hysbysiad Preifatrwydd ar gyfer Ymgeisydd Arholiad 13 oed neu'n hŷn: Trefniadau Mynediad Ar-lein”.

Mae'r term **Ffurflen Cydsyniad yr Ymgeisydd ar gyfer trefniadau mynediad ar-lein** yn golygu'r ddogfen â'r teitl "Cydsyniad Ymgeisydd Arholiad (13 oed neu'n hŷn) i brosesu data personol: Trefniadau Mynediad Ar-lein”.

Mae'r termau **trefniadau mynediad, Arholiadau, cyrff dyfarnu, CGC** a **canolfan Arholiad** â'r ystyron a roddwyd iddyn nhw yn Hysbysiad Preifatrwydd yr Ymgeisydd ar gyfer trefniadau mynediad ar-lein.